

Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Negeseuon allweddol a chymau gweithredu

Teitl y Cyfarfod	Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig			Dyddiad	06.03.2018
Rhif y Cyfarfod	10	Amser dechrau	10:00	Amser gorffen	13:30
Presennol	Graham Rees (Llywodraeth Cymru - Cadeirydd), Richard Lowcock James (Llywodraeth Cymru), Alison Palmer Hargrave (ACA Pen Llŷn a'r Sarnau – cynghorydd i'r Grŵp Llywio), Trevor Theobald (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cyngor Sir Penfro), Helen Bloomfield (Cyfoeth Naturiol Cymru), Maggie Hatton-Ellis (Cyfoeth Naturiol Cymru - cynghorydd), Mary Lewis (Cyfoeth Naturiol Cymru), Lindsey Powles (Llywodraeth Cymru).				
Telegynadleda	Louise George (Llywodraeth Cymru), Hannah Carr (JNCC)				
Ymddiheuriadau	Jonathan Monk (MHPA), Rosie Kelly (Ystad y Goron), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru)				
Absennol	Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)				

Rhif	Eitem ar yr Agenda
1	Croeso, cyflwyniadau a threfniadau ymarferol y lleoliad
2	Pontio'r UE (diweddariad llafar)
3	Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf (papur 1)
4	Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig • Cytuno ar y fersiwn ddiweddaraf • Llunio'r Cynllun Gweithredu
5	Ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori a Gweithredu Morol Cymru, 28 Mawrth
6	Eitemau i'w nodi, unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

Cyflwyniad

Mae'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (Grŵp Llywio) yn cydgysylltu'r gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn strategol ym moroedd Cymru. Mae'r Grŵp yn darparu cyngor, arweiniad a chyfeiriad cyfunol i awdurdodau sy'n rhoi camau rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar waith. Mae'n hyrwyddo rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn effeithiol, ac mae'n ceisio codi proffil rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chynyddu nifer yr awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid ehangach sy'n mabwysiadu'r dull ledled Cymru.

Mae aelodau'r Grŵp Llywio yn cynnwys awdurdodau rheoli allweddol yng Nghymru, yn unol â diffiniad Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Cynhaliwyd degfed cyfarfod y Grŵp Llywio ar 6 Mawrth 2018 yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys negeseuon allweddol a chamau gweithredu o'r cyfarfod. Mae aelodau'r Grŵp Llywio yn gyfrifol am ledaenu negeseuon cyson i'w rhwydweithiau perthnasol.

Os hoffech chi drafod unrhyw un o eitemau'r agenda yn fanylach, dylech gysylltu ag arweinydd eich sector. Os hoffech chi dderbyn manylion cyswllt arweinydd eich sector, e-bostiwch MarineandFisheriesMinisterialMailbox@gov.wales)

Negeseuon allweddol a chamau gweithredu

Eitem 3 : Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf (papur 1)

Negeseuon allweddol	Camau gweithredu
Ystyriwyd bod yr holl gamau gweithredu yn gyflawn heblaw am Gam 5 ar gynrychiolaeth ychwanegol gan CLILC a Grŵp Porthladdoedd Cymru. Cariwyd hyn drosodd i'r cyfarfod nesaf.	1. Trosglwyddo Cam Gweithredu 5 ar gynrychiolaeth ychwanegol gan CLILC a Grŵp Porthladdoedd Cymru i'r cyfarfod nesaf.

Eitem 2: Pontio'r UE (diweddariad llafar)

Negeseuon allweddol	Camau gweithredu
Derbyniodd aelodau'r Grŵp Llywio ddiweddariad llafar ar gynnydd yn ymwneud â'r paratodau i adael yr UE.	Amherthnasol

Eitem 4: Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig (papur 2)

Negeseuon allweddol	Camau gweithredu
Bu aelodau'r Grŵp yn trafod ailadroddiad diweddaraf y Fframwaith drafft ac yn gwneud rhywfaint o fân waith drafftio ac awgrymiadau strwythurol cyn ei lofnodi. Cytunodd CNC a JNCC i gyflenwi rhywfaint o eiriau'n cefnogi ac ategu'r Fframwaith. Cytunodd CNC a JNCC i gyfarfod a thrafod y ffordd orau o strwythuro rhan o'r Fframwaith sy'n cyflwyno rhagor o wybodaeth a chanllawiau i Awdurdodau Rheoli.	2. CNC a JNCC i ddarparu testun diwygiedig er mwyn cefnogi adran 4 o'r Fframwaith. 3. HB a HC i drafod y ffordd orau o strwythuro Atodiad 3. 4. CNC i rannu meini prawf â blaenoriaeth

Trafodwyd adran Cynllun Gweithredu'r Fframwaith yn fanwl. Cytunodd CNC i rannu'r meini prawf â blaenoriaeth gyda'r Grŵp; fe allai eu defnyddio o bosib er mwyn helpu i benderfynu pa gamau i'w cyflwyno o fewn y Cynllun Gweithredu. Cytunodd aelodau'r Grŵp i gynnal sesiwn delegynadledda ar 19 Mawrth er mwyn trafod a chymeradwyo'r fersiwn nesaf o'r Fframwaith yn cyfarfod ffurfiol nesa'r Grŵp.	gerbron y cyfarfod nesaf, er mwyn llywio trafodaethau ar ba gamau i'w cyflwyno o fewn y Cynllun Gweithredu. 5. RLJ i rannu fersiwn ddiwygiedig o'r Fframwaith ag aelodau'r Grŵp Llywio erbyn 16 Mawrth.
--	---

Eitem 5: Ymgysylltu â Grŵp Cynghori a Gweithredu Morol Cymru, 28 Mawrth

Negeseuon allweddol	Camau gweithredu
Gofynnwyd am gymorth y Grŵp er mwyn helpu i baratoi a rhoi cyflwyniad ar y Fframwaith drafft yng nghyfarfod nesa'r Grŵp Llywio.	6. Y Grŵp i ymateb i'r Tîm Cadwraeth a Bioamrywiaeth Morol o ran pwy sydd ar gael i helpu i baratoi a rhoi cyflwyniad ar y Fframwaith drafft yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Grŵp Llywio.

Eitem 6: Eitemau i'w nodi, unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

Negeseuon allweddol	Camau gweithredu
Nid oedd unrhyw eitemau i'w nodi nac unrhyw fater arall. Cytunodd aelodau'r Grŵp i gyfarfod eto cyn gynted â phosib ar ôl gwyliau'r Pasg er mwyn trafod y meini prawf â blaenoriaeth posib.	7. RLJ i rannu pŵl piniwn Doodle ar gyfer cyfarfod nesa'r Grŵp.